QWCC1-003_16C

20 Mai 2016

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Datganiad Cydymffurfiaeth ar gyfer Cymwysterau Cymru

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi am y broses ar gyfer cyflwyno'ch Datganiad Cydymffurfiaeth blynyddol i Cymwysterau Cymru, a rhoi templed i chi ar gyfer hyn. Mae Amod B2 yr Amodau Cydnabod Safonol yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob corff dyfarnu cydnabyddedig gyflwyno datganiad blynyddol i ni.

Ysgrifennais atoch ym mis Ebrill i roi gwybod i chi am ein bwriad i ofyn am wybodaeth ychwanegol i ategu eich cydymffurfiaeth â rhai amodau. Mae'r templed atodedig yn amlinellu'r wybodaeth y mae'n ofynnol i chi ei darparu.

Mae'n rhaid i'ch datganiad gydymffurfio ag amod B2 ein Hamodau Cydnabod Safonol. Nid yw'n ofynnol mwyach i chi adrodd ar sut y gwnaethoch gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda chanolfannau/athrawon yn ystod y 12 mis cynt, a oedd yn ofynnol yn flaenorol o dan amod B2.6. Rhaid i'ch datganiad gael ei gwblhau'n llawn a'i lofnodi gan Gadeirydd (neu gyfwerth) eich Corff Llywodraethol a'ch Swyddog Cyfrifol. Mae llofnodion electronig yn dderbyniol.

Rhaid i chi gyflwyno eich datganiad blynyddol i ni **rhwng dydd Mercher 1 Mehefin a chanol nos, nos Wener 30 Medi 2016**. Anfonwch eich datganiad gorffenedig ar ffurf dogfen PDF i datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth arnoch ynglŷn â phroses Datganiad Cydymffurfiaeth 2016, cysylltiwch â ni ar datganiadcydymffurfiaeth@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir

Denver Davies
Uwch Reoleiddiwr Monitro a Chydymffurfio

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701